

COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

Y CABINET - DYDD IAU, 28 MEDI 2023

BWRDD ADDYSG, SGILIAU A LLES Y CABINET

Aelodau Bwrdd y Cabinet:

Cynghorwyr: J.Hurley, N.Jenkins a/ac C.Phillips

Swyddogion sy'n Bresennol:

C. Morris, C. Millis, R. Crowhurst, J. Burge, J. Merryfield, D. Evans, K.W.Brown, P. Chivers ac S. McCluskie

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd i benodi'r Cynghorydd N. Jenkins yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

Croesawodd y Cynghorydd N. Jenkins bawb i'r cyfarfod.

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

4. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol, a gynhaliwyd ar 6 ac 18 Medi fel cofnod gwir a chywir.

5. **BLAENRAGLEN WAITH 2023/24**

Nodwyd y Flaenraglen Waith ar gyfer 23/24.

6. **AMSER CWESTIYNAU CYHOEDDUS**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

7. **MWY O LEOEDD CYNLLUNIEDIG YSGOL GYNRADD
BLAENHONDDAN - NŌL O'R YMGYNGHORIAD**

Penderfyniad:

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r asesiad effaith integredig, a'r ymatebion i'r ymgynghoriad, yn unol ag Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, **CYMERADWYODD** yr Aelodau gyhoeddiad statudol y cynnig i sefydlu darpariaeth arbenigol ar gyfer disgyblion oed cynradd ag Anhwylderau yn y Sbectrwm Awtistig yn Ysgol Gynradd Blaenhonddan.

Rheswm dros y Penderfyniad:

Cydymffurfio â'r gofynion cyhoeddi ffurfiol a osodir ar y cyngor gan y Cod Trefniadaeth Ysgolion a'r ddeddfwriaeth gysylltiedig. Galluogi'r cyngor i hyrwyddo safonau addysgol uchel a chyflawni potensial pob plentyn. Galluogi'r cyngor i gyflawni ei ddyletswydd i sicrhau addysg effeithlon yn ei ardal.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau, a ddaeth i ben am 9.00am ddydd Llun, 2 Hydref 2023.

Ymgynghoriad:

Dechreuodd yr ymgynghoriad ar y cynnig hwn ar 6 Mehefin, 2023 a gwahoddwyd sylwadau tan 18 Gorffennaf 2023. E-bostiwyd y ddogfen ymgynghori at yr ymgynghoreion a nodwyd yn y Cŏd Trefniadaeth Ysgolion, ac yn unol â'r arfer presennol, roedd Ysgol Gynradd Blaenhonddan wedi gofalu am ddsbarthu'r ddogfen i rieni, disgyblion a staff.

Derbyniwyd 1 ymateb ysgrifenedig a fynegodd gefnogaeth i'r cynnig. Mae'r ymateb ysgrifenedig i'r ymgynghoriad ar gael i Aelodau ei ddarllen fel atodiad i'r ddogfen Adroddiad Ymgynghori.

8. **POLISI GORFODI IECHYD YR AMGYLCHEDD A SAFONAU
MASNACH**

Penderfyniad:

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r asesiad effaith integredig, a'r atodiadau a gylchredwyd penderfynodd yr Aelodau **GYMERADWYO'R** Polisi Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach a oedd wedi'i ddiweddarau.

Rheswm dros y Penderfyniad:

Sicrhau bod camau gorfodi cyson yn cael eu cymryd, a bod egwyddorion y Côt Rheoleiddwyr a chanllawiau cyhoeddedig eraill yn cael eu dilyn.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau, a ddaeth i ben am 9.00am ddydd Llun, 2 Hydref 2023.

Ymgynghoriad:

Nid oes gofyniad i ymgynghori'n allanol ar yr eitem hon.

9. **DEDDFWRIAETH SAFONAU MASNACH - NEWIDIADAU I DREFNIADAU DIRPRWYEDIG SWYDDOGION**

Penderfyniad:

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r asesiad effaith integredig, penderfynodd yr Aelodau **GYMERADWYO'R** adroddiad, gyda'r diwygiadau canlynol i'r trefniadau dirprwyedig mewn perthynas â'r Gwasanaeth Safonau Masnach, Diogelwch Bwyd ac Iechyd.

- a) Ychwanegu'r Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir) 2022 a Deddf Plant a Theuluoedd 2014 at y rhestr o ddeddfwriaeth a ddirprwyir i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd, Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd a'r Rheolwr Safonau Masnach, Diogelwch Bwyd ac Iechyd a nodir yn Atodlen 1 o Baragraff 20 o adran Pwerau Dirprwyedig Cyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio o'r Cyfansoddiad.
- b) Dirprwyo awdurdod i'r swyddogion hynny yn [a] uchod i awdurdodi swyddogion unigol, cymwys a chymwysedig i weithredu o dan y ddeddfwriaeth honno.
- c) Dirprwyo'r awdurdod i'r swyddogion hynny yn [a] uchod awdurdod i gychwyn achos cyfreithiol o dan y darpariaethau a gynhwysir yn Neddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir) 2022 a Deddf Plant a Theuluoedd 2014 ar y cyd â Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd [gan gynnwys llofnodi unrhyw rybuddiadau'n unol â Chanllawiau'r Swyddfa Gartref] a, lle bo troseddwr honedig yn cael ei gadw yn y ddalfa mewn perthynas â throstedd, cychwyn achos drwy gyhuddiad.
- d) Bod Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol yn cael ei awdurdodi i

geisio diwygiad i gyfansoddiad y cyngor maes o lawr er mwyn adlewyrchu'r newidiadau uchod i drefniadau dirprwyo'r awdurdod.

Rheswm dros y Penderfyniad:

Galluogi'r ddeddfwriaeth newydd i gael ei roi ar waith yn gyflym ac yn effeithlon. Mae'r gwasanaeth Safonau Masnach, Diogelwch Bwyd ac Iechyd, sydd o fewn y Gwasanaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd ehangach, yn gyfrifol am orfodi deddfwriaeth Safonau Masnach.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau, a ddaeth i ben am 9.00am ddydd Llun, 2 Hydref 2023.

Ymgynghoriad:

Nid oes gofyniad i ymgynghori'n allanol ar yr eitem hon.

10. **DIWEDDARIADAU I'R CYNLLUN DIRPRWYO YN DILYN
AILSTRWYTHURO O FEWN Y GWASANAETH CYNLLUNIO A
DIOGELU'R CYHOEDD**

Penderfyniad:

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r asesiad effaith integredig ac Atodiad 1 i'r adroddiad a ddosbarthwyd, penderfynodd yr Aelodau fod yr argymhelliad i greu cofnod o ba swyddogion sy'n derbyn pwerau dirprwyedig i gymryd camau gorfodi yn cael ei **gymeradwyo**.

Rheswm dros y Penderfyniad:

I sicrhau bod cofnod diweddaedig o'r swyddogion hynny sy'n derbyn pwerau dirprwyedig i gymryd camau gorfodi ar waith.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau, a ddaeth i ben am 9.00am ddydd Llun, 2 Hydref 2023.

Ymgynghoriad:

Nid oes gofyniad i ymgynghori'n allanol ar yr eitem hon.

11. **CYTUNDEB PARTNERIAETH YSGOLION**

Penderfyniad:

Bod yr adroddiad yn cael ei nodi er gwybodaeth.

12. **DIWEDDARIAD AR WAHARDDIADAU YSGOL**

Penderfyniad:

Bod yr adroddiad yn cael ei nodi er gwybodaeth.

13. **ASESIAD SAFONAU LLYFRGELLOEDD CYHOEDDUS CYMRU
2021/2022**

Penderfyniad:

Bod yr adroddiad yn cael ei nodi er gwybodaeth.

14. **DANGOSYDDION PERFFORMIAD CHWARTER 1AF 2023 2024 - Y
GYFARWYDDIAETH ADDYSG**

Penderfyniad:

Bod yr adroddiad yn cael ei nodi at ddibenion monitro.

15. **DANGOSYDDION PERFFORMIAD CHWARTER 1AF 2023 2024 -
CYFARWYDDIAETH YR AMGYLCHEDD**

Penderfyniad:

Bod yr adroddiad yn cael ei nodi at ddibenion monitro.

16. **EITEMAU BRYD**

Penderfyniad:

Ni chafwyd unrhyw eitemau bryd.

CADEIRYDD